

Newidiadau i'ch Casgliadau Ailgylchu – Y Barri

O'r 19eg
o Hydref
2020



VALE of GLAMORGAN



Bro Morgannwg yn ailgylchu
Vale of Glamorgan recycles

Beth sy'n newid?

- **O'r 19eg o Hydref 2020**, bydd angen ichi **ddidoli eich eitemau i'w hailgylchu i mewn i gynwysyddion ar wahân.**
- Rydym wedi darparu **bag oren i chi ar gyfer cardfwrdd, bag gwyn i ddal eich papur, a chadi llwyd i ddal eich gwydr.**
- Defnyddiwch **eich bag glas presennol i ddal eich plastig, caniau a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak)**, os gwelwch yn dda. Os nad oes gennych fag glas ar hyn o bryd, dylech gysylltu â ni.
- Dim ond **ailgylchu a roddir allan mewn cynwysyddion a ddarparwyd gan Gyngor Bro Morgannwg y byddwn yn gallu eu casglu.** Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o fagiâu plastig i ddal eich ailgylchu, os gwelwch yn dda.
- **Ni fydd eich diwrnod casglu'n newid.**
- Bydd eich **ailgylchu yn dal i gael ei gasglu bob wythnos, ochr yn ochr â'ch gwastraff bwyd.** Bydd eich **gwastraff o'r ardd yn parhau i gael ei gasglu bob pythefnos** rhwng Mawrth a Thachwedd.
- **Mae eich bagiau du ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu a byddant yn parhau i gael eu casglu bob pythefnos.** Fe gewch roi hyd at ddau fag du allan bob pythefnos.

Pam rydyn ni'n newid cynwysyddion?

Nod y newid yw gwella ansawdd y deunyddiau rydyn ni'n eu casglu i'w hailgylchu, sy'n well i'r amgylchedd, a bydd yn ein helpu i ailgylchu mwy yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r dull a gynghorir ar gyfer Cymru gyfan gan Lywodraeth Cymru.



Cofiwch gau caeadau eich holl gynwysyddion a'u rhoi allan cyn 7yb ar eich diwrnod casglu.

Beth sy'n mynd i ble?



Bag oren

Cardfwrdd



Fflatiwch y bocsys, os gwelwch yn dda, a thorrwch unrhyw gardfwrdd yn ddarnau llai i sicrhau ei fod yn ffitio yn eich bag oren

- ✓ Bocsys cardfwrdd
- ✓ Cartonau wyau
- ✓ Tiwbiau papur toiled
- ✓ Bocsys grawnfwyd
- ✓ Bocsys past dannedd
- ✓ Papur brown
- ✓ Pecynnau cardfwrdd, fel y rhai sy'n dod gyda photiau iogwrt

- ✗ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak a ddefnyddir yn aml ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth a chawl*
- ✗ Polystyren**
- ✗ Unrhyw haenen neu ddeunydd pacio wedi'i wneud o blastig**

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag glas ar gyfer plastig, caniau, a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak)

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag du ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu



Bag gwyn

Papur



- ✓ Papurau newydd
- ✓ Cylchgronau (sgleiniog a papur cyffredin)
- ✓ Amlenni (gyda ffenestri a heb ffenestri)
- ✓ Papur wedi'i falu'n fân, fel derbynebau a biliau'r cartref*
- ✓ Llythyrau
- ✓ Papur argraffydd

- ✗ Papur wal*
- ✗ Papur lapio*
- ✗ Hancesi papur*
- ✗ Tyweli papur*
- ✗ Papur cegin*
- ✗ Papur brown**

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag du ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag oren ar gyfer cardfwrdd

* mewn symiau bach yn unig



**Gwagiwch a rinsiwch,
os gwelwch yn dda**

Poteli a jariau gwydr



Cadi llwyd

**Tynnwch unrhyw gaeadau plastig
neu fetel, a'u rhoi yn eich bag glas**

- ✓ Poteli gwydr, fel poteli cwrw, gwin a diodydd ysgafn*
 - ✓ Jariau gwydr, fel jariau bwydydd babanod a sawsiau*
- * Gallwn dderbyn gwydr clir a gwydr lliw

- ✗ Llestri ceramig neu tseina*
- ✗ Gwydrau yfed*
- ✗ Cwareli gwydr*
- ✗ Bylbiau golau*
- ✗ Pyrex*
- ✗ Gwydr wedi torri*

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol

Ydych chi am glirio'ch eitemau cartref mawr diangen?

Os oes gennych ddarnau mawr o ddodrefn a nwyddau nad ydych eu heisiau mwyach, gallwch archebu **casgliad gwastraff cartref swmpus**.

Gallwn gasglu'r eitemau canlynol:

- Gwelyau a soffas
- Matresi
- Byrddau a chadeiriau
- Wardrobau
- Poptai a pheiriannau golchi llestri
- Oergelloedd a rhewgelloedd, a pheiriannau golchi a sychu dillad
- Carpedi neu isgarpedi

Mae'n costio dim ond:

- £20 am hyd at dair eitem,
- £25 am bedair eitem, neu
- £30 am bum eitem.



I drefnu casgliad neu i ddarganfod mwy, ewch i:

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy a chwilio am 'swmpus'.

Plastig, caniau, a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak)



Gwagiwch a rinsiwch, os gwelwch yn dda



Gwasgwch unrhyw boteli, yna rhoi'r caead yn ôl arnynt

Bag glas

- ✓ Poteli nwyddau ymolchi wedi'u gwneud o blastig, fel poteli siampw, cyflyrydd gwallt ac ewyn bath*
- ✓ Poteli nwyddau glanhau wedi'u gwneud o blastig, fel poteli cannydd a photeli â chwistrell*
- ✓ Poteli diodydd wedi'u gwneud o blastig, fel poteli llaeth, dŵr a diodydd ysgafn*
- ✓ Cynwysyddion plastig, fel tybiau ffrwythau, potiau iogwrt a thybiau teisenni a myffins*
- ✓ Cartonau a chaeadau tecawê plastig, fel bocsys a chaeadau tecawê Tsieinaidd*
- ✓ Erosolau gwag, fel chwistrelli diaroglydd
- ✓ Caniau diodydd o fetel, fel caniau cwrw a diodydd ysgafn
- ✓ Tuniau bwyd metel, fel tuniau ffa pob a chawl
- ✓ Ffoil glân a chartonau ffoil
- ✓ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak a ddefnyddir yn aml ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth a chawl

- ✗ Bagiau plastig*
- ✗ Plastig meddal, fel haenen lynu, seloffen, caeadau pryddau parod neu botiau iogwrt, bagiau bara, bagiau caws, bagiau plastig sy'n aml yn dod am ffrwythau, llysiau ac eitemau salad, bagiau neu ddeunydd lapio bwyd rhewgell, deunydd lapio bisgedi a losin, swigod lapio a bagiau parseli wedi'u gwneud o blastig*
- ✗ Pecynnau creision*
- ✗ Pecynnau bwydydd, fel rhai bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes*
- ✗ Eitemau plastig du neu frown*
- ✗ Pecynnau swigod plastig (hynny yw, y deunydd pacio plastig a ddefnyddir ar gyfer tabledi a chapsiwlau)*
- ✗ Brwsys dannedd a thiwbiau past dannedd*
- ✗ Raseli a llafnau rasel*
- ✗ Tanwyr nwy gwag*
- ✗ Tuniau nwy gwag**
- ✗ Plastig caled, fel cadeiriau o'r ardd, tegantau plant, biniau cegin, powlenni golchi llestri, potiau blodau, potiau powdr protein, a chynwysyddion Tupperware**

* Gallwn dderbyn plastig o unrhyw liw ond du a brown. Rhowch blastig du neu frown yn eich bag du ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag du ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol



Cadi gwyRDD

- ✓ Llysiau a ffrwythau, yn cynnwys creiddiau a chrwyn
- ✓ Cig a physgod, yn cynnwys esgyrn a phlisc
- ✓ Bagiau te a gwaddodion coffi
- ✓ Plisc wyau
- ✓ Bwyd dros ben neu sydd wedi mynd yn hen, fel hen fara a theisennau (os na ellir ei gadw'n ddiogel i'w fwyta yn nes ymlaen)
- ✓ Bwydydd anifeiliaid anwes, fel bwyd cath, ci, mochyn cwta, bochdew neu gwningen

Gwastraff bwyd



- ✗ Deunydd pacio bwyd
- ✗ Hylifau, fel greffi
- ✗ Olewau a braster
- ✗ Baw anifeiliaid neu bobl



Bag gwyRDD

- ✓ Gwair
- ✓ Dail
- ✓ Planhigion
- ✓ Blodau
- ✓ Y rhan fwyaf o chwyn
- ✓ Tocion llwyni
- ✓ Tocion gwrychoedd

Gwastraff o'r ardd



- ✗ Pridd
- ✗ Cerrig
- ✗ Boncyffion
- ✗ Chwyn ymledol, fel Canclwm Japan
- ✗ Baw anifeiliaid neu bobl
- ✗ Deunydd gwelyau anifeiliaid, fel siafins pren, gwair neu wellt
- ✗ Dodrefn o'r ardd (plastig neu bren)

Eitemau na ellir eu hailgylchu



Bagiau du

- ✓ Bagiau plastig
- ✓ Plastig haenog, fel haenen lynu, seloffen, caeadau prydau parod a photiau iogwrt
- ✓ Deunyddiau lapio bwyd wedi'i wneud o blastig, fel bagiau bara a chaws, ffrwythau, llysiau ac eitemau salad, bagiau sglodion a llysiau o'r rhewgell, a phecynnau creision a diodydd ysgafn aml-becyn
- ✓ Pecynnau bisgedi, deunydd lapio losin, a bagiau neu becynnau siocled
- ✓ Swigod lapio
- ✓ Bagiau parseli plastig a ddefnyddir i ddanfôn nwyddau
- ✓ Pecynnau creision
- ✓ Pecynnau bwydydd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes, diodydd sudd ffrwythau a reis microdon
- ✓ Plastig du neu frown, fel potiau a thybiau
- ✓ Pecynnau swigod plastig (hynny yw, y deunydd pacio plastig a ddefnyddir ar gyfer tabledi a chapsiwlau)
- ✓ Brwsys dannedd a thiwbiau past dannedd
- ✓ Raseli a llafnau rasel*
- ✓ Cwpanau coffi a diodydd ysgafn tecawê untro
- ✓ Bocsys pizza tecawê a deunydd lapio o'r siop sglodion
- ✓ Papur lapio
- ✓ Hancesi papur, papur cegin a thyweli papur
- ✓ Polystyren
- ✓ Gwasarn anifeiliaid anwes
- ✓ Tanwyr nwy gwag
- ✓ Llundw tân
- ✓ Gwydr wedi torri*

- ✗ Batris*
- ✗ Tuniau nwy*
- ✗ Cylyll a ffyr a llwyau*
- ✗ Olewau a braster*
- ✗ Tuniau paent*
- ✗ Nodwyddau hypodermig**

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol

** Gofynnwch i'ch meddyg teulu sut dylech gael gwared â'r rhain

* Lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel

Cwestiynau cyffredin

Beth allaf i ei wneud â fy hen gynwysyddion?

Fe gewch barhau i ddefnyddio eich bag glas presennol i ailgylchu plastig, caniau, a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak) ychwanegol, a'ch bocs gwyrdd presennol i ailgylchu unrhyw wydr ychwanegol.



Allaf i gael cynwysyddion ychwanegol?

Cewch. Os hoffech chi gynwysyddion ychwanegol, cysylltwch â ni.



Beth sy'n digwydd i fy ailgylchu a gwastraff bag du unwaith y caiff ei gasglu?

Caiff eich **ailgylchu sych – cardfwrdd, papur, gwydr, plastig, caniau, a chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak)** – ei anfon i gyfleusterau ailbroesu lle caiff ei baratoi ar gyfer ailgylchu.



Caiff eich **ailgylchu gwastraff bwyd** ei gludo i gyfleuster treulio anaerobig yng Nghaerdydd. Mae'r broses hon yn defnyddio'ch gwastraff bwyd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gaiff ei roi'n ôl yn y grid cenedlaethol i bweru cartrefi a chymunedau, ynghyd â chreu deunydd tebyg i gompost y gellir ei ddefnyddio fel gwrtaith ar dir.



Caiff eich **ailgylchu gwastraff o'r ardd** ei gludo i gyfleuster yng Nghaerdydd lle caiff ei droi'n gompost.



Caiff eich **gwastraff bagiau du** ei gludo i gyfleuster Adfer Ynni yng Nghaerdydd, lle caiff ei ddefnyddio fel tanwydd i gynhyrchu ynni sy'n cael ei roi'n ôl yn y grid cenedlaethol.

Beth arall allaf i ei ailgylchu yn y Fro?

Gallwch hefyd ailgylchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau yn eich Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol. Edrychwch ar ein gwefan am fwy o wybodaeth.



 www.valeofglamorgan.gov.uk/ailgylchu

 Cyngor Bro Morgannwg

 CIV@valeofglamorgan.gov.uk

 @CBroMorgannwg

 01446 700111